

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT
PWYLLGOR SAFONAU
PENODI AELODAU ANNIBYNNOL**

Rhagarweiniad

1. Yn unol ag Adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001, mae'r cyngor yn ceisio penodi un person i wasanaethu fel "aelod annibynnol" o'i Bwyllgor Safonau. Mae hon yn rôl bwysig o fewn fframwaith moesegol y cyngor sydd â'r bwriad o sicrhau bod ymddygiad yn y cyngor a'r Cyngorau Tref a Chymuned yn ei ardal o safon briodol.

Y Pwyllgor Safonau

2. Mae'r Pwyllgor Safonau hwn yn gyfrifol yn gyffredinol am gynnal a hyrwyddo safonau moesegol y cyngor, gan gynghori ar faterion sy'n ymwneud â Chôd Ymddygiad ar gyfer Aelodau a datblygu unrhyw drefniadau hyfforddi o ran ymddygiad a moeseg. Gall y Pwyllgor Safonau dderbyn atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o bryd i'w gilydd a bydd wedyn yn penderfynu a yw gweithredoedd unrhyw un o'i Gynghorwyr yn torri'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau ac yn rhoi cosbau ar waith. Mae ganddo ddyletswyddau tebyg ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned yn y maes hwn.

Aelodau Annibynnol

3. Y meini prawf ar gyfer dethol a'r rhinweddau a geisir gan ymgeiswyr yw bod gan ymgeiswyr y canlynol:-
 - Ymdeimlad o wrthrychedd;
 - uniondeb personol cryf;
 - parch at eraill;
 - y gallu i weithredu gyda disgresiwn;
 - y gallu i werthuso ffeithiau a thystiolaeth a llunio barn wrthrychol;
 - bod yn wrandâwr ac yn gyfathrebwr effeithiol, a
 - chred gref wrth ddilyn a chynnal gwerthoedd moesegol mewn bywyd cyhoeddus.

4. Rhaid i Aelodau Annibynnol hefyd allu bodloni'r ymrwymiad amser a'r hyblygrwydd angenrheidiol i sicrhau bod y Pwyllgor Safonau'n cael ei redeg yn effeithlon ac ymateb i geisiadau penodol ar fyr rybudd. Disgwylir y bydd o leiaf bedwar cyfarfod y flwyddyn er y gall fod mwy yn dibynnu ar fusnes. Bydd y Pwyllgor Safonau yn dewis Cadeirydd ac Is-gadeirydd o blith yr aelodau annibynnol. Felly, efallai y bydd angen rhinweddau arwain a chyflwyno.
5. Nid oes angen gwybodaeth fanwl am lywodraeth leol er y byddai'n fantais cael rhywfaint o brofiad am y math o waith y mae Pwyllgorau Safonau neu Bwyllgorau sy'n ymdrin â moeseg neu safonau mewn unrhyw amgylchedd yn ei wneud.

Pwy sy'n gymwys i wasanaethu fel Aelodau Annibynnol

6. Ni all y cyngor (yn amodol ar yr amod ym Mharagraff 7 isod) ystyried ceisiadau gan y bobl ganlynol:-
 - (a) Aelodau, swyddogion neu weithwyr presennol, neu bartneriaid sifil neu briod aelodau, swyddogion neu weithwyr presennol y cyngor neu unrhyw Gynghorau Tref/Cymuned sydd wedi'u lleoli yn ardal y cyngor.
 - (b) Aelodau, swyddogion neu weithwyr blaenorol, neu bartneriaid sifil neu briod Aelodau, swyddogion neu weithwyr blaenorol y cyngor neu unrhyw Gynghorau Tref/Cymuned sydd wedi'u lleoli yn ei ardal.
 - (c) Aelodau, swyddogion neu weithwyr presennol unrhyw Gyngor Sir arall, Cyngor Bwrdeistref Sirol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog neu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (neu unrhyw olynnyddion cyfreithiol yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Tân ac Achub) neu unrhyw bartneriaid sifil neu briod aelodau, swyddogion neu weithwyr o'r fath.

[At ddibenion (a), (b) ac (c) uchod ni chaiff person ei ystyried yn "aelod" o'r cyngor, Cyngor Tref/Cymuned, y Parc Cenedlaethol neu'r awdurdodau Tân ac Achub pan fo'r person hwnnw'n aelod o gorff o'r fath yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi'i benodi i'r corff hwnnw fel Aelod Annibynnol o'i Bwyllgor Safonau yn unig.

7. Gall cyn-Aelodau, swyddogion neu weithwyr Cynghorau Sir eraill, Cynghorau Bwrdeistref Sirol, awdurdodau Parc Cenedlaethol

Bannau Brycheiniog neu Dân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, neu eu partneriaid sifil neu eu priod wneud cais i fod yn Aelodau Annibynnol o Bwyllgor Safonau'r Cyngor ar yr amodau canlynol:-

- a) Maen nhw neu eu partneriaid sifil/priod wedi peidio â bod yn aelodau, yn swyddogion neu'n weithwyr i'r cyrff hynny am gyfnod o 12 mis o leiaf cyn iddynt wneud cais i fod yn Aelod Annibynnol o Bwyllgor Safonau'r Cyngor, ac
- (b) Nid yw ymgeiswyr o'r fath erioed wedi bod yn Aelod, yn swyddog nac yn weithiwr i'r cyngor a/neu un o'r Cyngorau Tref/Cymuned yn ei ardal.

[At ddibenion y paragraff hwn, ni ddylid ystyried person yn "aelod" o gorff o'r fath yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi'i benodi i'r corff hwnnw fel Aelod Annibynnol o'i Bwyllgor Safonau yn unig.]

8. At hynny, er mwyn bod yn gymwys i gael ei benodi i'r Pwyllgor Safonau ac wedi hynny i barhau i fod yn aelod ohono, rhaid i aelod annibynnol:-

- Bodloni'r gofynion aelodaeth a nodir yn Adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Rheoliadau a wnaed wedi hynny.
- Bod dros 18 oed ac yn etholwr cofrestredig ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot;
- Bod yn berson sy'n cael ei barchu gyda chymeriad da sy'n annibynnol ar gyngor y fwrdeistref sirol a chynghorau tref a chymuned yr ardal, a gwleidyddiaeth leol;
- Darparu dau ganolwr
- Peidio â bod wedi'i anghymwys o dan Adran 80 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 neu unrhyw ddeddfiad arall;

9. Ni ddylai ymgeiswyr

- Fod yn berthynas agos (rhiant, partner, brawd, chwaer neu blentyn) unrhyw aelod neu ddeiliad unrhyw swydd sydd â chyfyngiadau gwleidyddol yn y Cyngor Bwrdeistref Sirol neu unrhyw Gyngor Tref neu Gymuned yn ei ardal;
- Bod yn Aelod (gan gynnwys Aelod cyfetholedig) o unrhyw Bwyllgor, Is-bwyllgor, Cyd-bwyllgor neu Banel sy'n gysylltiedig â Chyngor Bwrdeistref Cyngor Castell-nedd Port Talbot;

- Bod yn gynrychiolydd a enwebwyd gan yr Awdurdod Lleol i wasanaethu ar Gorff Llywodraethu Ysgolion;
- Bod yn swyddog neu'n weithiwr i Undeb Llafur y mae ei aelodau'n cynnwys pobl mewn cyflogaeth Awdurdod Lleol:
- Bod yn berson sydd â pherthynas fasnachol sylweddol â'r cyngor

(Mae Adran 80 ac 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a diffiniadau ar gyfer cael eich barnu fel bod yn annibynnol ar y cyngor a gwleidyddiaeth leol yn y pecyn cais)

10. Gall y broses o ddewis aelodau hefyd roi ystyriaeth i gydbwysedd y pwyllgor yn ei gyfanrwydd gan gynnwys amrywiaeth, y gallu i siarad Cymraeg a dosbarthiad daearyddol ei aelodaeth.
11. Er na fydd y canlynol o reidrwydd yn faterion sy'n anghymhwysu rhywun rhag cael ei ystyried ar gyfer aelodaeth, bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd ddatgelu euogfarnau troseddol nad ydynt wedi'u darford ac aelodaeth o bleidiau gwleidyddol neu undeb llafur neu gymdeithas fasnach neu gyflogwyr neu gymdeithas broffesiynol neu unrhyw sefydliadau, clybiau neu gymdeithasau eraill gan gynnwys y rhai sydd â gweithgareddau neu aelodaeth gyfrinachol.

Cais

12. Rhagwelir y bydd asesiadau a chyfweliadau'n cael eu cynnal ym mis Mai gyda'r penodiadau'n cael eu cadarnhau'n fuan wedyn. Penodir un aelod annibynnol i wasanaethu am 4 blynedd, yn amodol ar delerau penodi/terfynu fel y cytunwyd gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol.

Treuliau a Chydnabyddiaeth Ariannol

13. Bydd Aelodau Annibynnol yn cael eu talu ar gyfradd o £105 am hanner diwrnod a £210 am ddiwrnod. Bydd costau teithio cymeradwy yn daladwy yn unol â chynllun Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Aelodau y cyngor.
14. Dylid anfon llythyr cais yn disgrifio sut rydych yn bodloni'r gofynion a'r meini prawf uchod, ynghyd â CV manwl gydag o leiaf ddau eirda a'r ffurflen gais wedi'i llenwi a'r ffurflen euogfarnau wedi'u darford o'r pecyn cais at Mr Craig Griffiths, Pennaeth Gwasanaethau

Cyfreithiol a Democrataidd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd
Port Talbot, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ. Y dyddiad
cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 1 Medi 2022